

Monmouthshire Select Committee Minutes

Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg Neuadd y Sir Brynbuga Dydd Iau, 15fed Rhagfyr, 2022, 10.00 am

Cynghorwyr yn Bresennol

Cynghorydd Sir Alistair Neill (Cadeirydd)
Cynghorydd Sir: Ian Chandler, Tony Kear,
Paul Pavia, Peter Strong, Ann Webb,
Laura Wright, Sue Riley, Su McConnel,
Martyn Groucutt

Swyddogion yn Bresennol

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Richard Jones, Rheolwr Perfformiad
Sharon Randall-Smith, Pennaeth Cyflawniad a
Chyrhaeddiad

Ymddiheuriadau: Cynghorydd Sir Jill Bond

1. Datganiadau o Fuddiant

Dim.

2. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd

Ni dderbyniwyd unrhyw beth.

3. Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Cyflwynodd Sharon Randall Smith yr adroddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau gyda'r Aelod Cabinet Martyn Groucutt.

Her:

Gwelaf gyfeiriad at ysgol Gymraeg newydd yn Nhrefynwy ac mae'r adroddiad yn amlygu goblygiadau o ran adnoddau. A yw'r prosiect wedi'i ddiogelu'n llawn? O ystyried y sefyllfa bresennol o ran y gyllideb, a allai'r ysgol fod yn amodol ar arbedion?

Rydym yn ymwybodol iawn o'r sefyllfa bresennol. Er mwyn sefydlu'r dosbarth egin, mae angen cyllid gan Lywodraeth Cymru sef 100%, ond mae angen inni hefyd ystyried costau referniw rhedeg yr ysgol, a fydd yn fach yn y lle cyntaf am yr ychydig flynyddoedd cyntaf wrth inni dyfu'r egin, ond bydd y costau'n cynyddu. Wedi dweud hynny, ni fydd disgyblion sy'n dewis addysg cyfrwng Gymraeg yn dewis cyfrwng Saesneg, felly disgwyliwn cydbwysedd yn y pen draw. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen inni fod yn ymwybodol ohono wrth symud ymlaen.

Wrth gymharu Sir Fynwy ag awdurdodau cyfagos fel Torfaen sydd â rhestr aros, yr ydym yn dal i fyny a thybed a yw'r ffaith bod gennym ysgol yn y categori mesurau arbennig yn rhwystr i rieni?

Aelod Cabinet: Yn ein 2 ysgol cyfrwng Cymraeg bresennol, mae gennym ddarpariaeth feithrin lawn. Mae'r egin newydd yn cael ei sefydlu yn Nhrefynwy, a fydd yn cynnig gofal cyn ac ar ôl ysgol llawn. Dylai hyn gymell rhieni i roi eu plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae addysg yn bwysig trwy gydol ein oes, felly o ystyried y cynnig o ran addysg feithrin, bydd hyn yn cymharu'n ffafriol â'n hawdurdodau cyfagos.

O ran y fforwm WESP, a ydynt wedi derbyn y cynllun gweithredu? Pa broblemau a godwyd ac a yw'r rheini wedi'u lliniaru, o ran pa mor realistig yw'r uchelgais?

Mae'r cynllun gweithredu wedi'i gyflwyno i'r fforwm a bu iddynt gyfrannu at y fersiwn derfynol, ynghyd â chynrychiolydd o Lywodraeth Cymru, cyn i'r cynllun gael ei adrodd i Lywodraeth Cymru. Mae'n bwysig nodi mai ni sy'n gyfrifol am y WESP ac fe ymgysylltwyd yn helaeth gyda'r fforwm. Roeddent yn falch o weld yr uchelgais ond yn roeddynt hefyd yn cydnabod yr angen am linell sylfaen.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y problemau sy'n ymwneud â'r gweithlu ac mae'n cyfeirio at y cynllun gweithlu cenedlaethol sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru. A oes diweddariad pellach ar hynny? Ac wrth ddatblygu ac ehangu'r ddarpariaeth mewn ysgolion, mae gwella gallu staff o ran y Gymraeg mewn ysgolion cynradd (o'r lefel ganolradd i'r lefel uwch) yn gam cymharol fach ac mae gennym gryn dipyn o staff y gellir eu datblygu ar y lefel honno, ond o ran gallu staff ysgolion uwchradd, mae datblygu staff o lefel gallu sylfaenol iawn yn dasg llawer mwy, felly sut ydym ni'n mynd i weithio gyda chydweithwyr er mwyn sicrhau lefelau uwch o ran gallu?

Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaethau canolog ac wedi cynnal arolwg staff er mwyn cael syniad o'n capasiti a gallu er mwyn ein galluogi i ddatblygu cynllun cynhwysfawr i gefnogi a chynyddu gallu staff. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i ddatblygu gallu ieithyddol ar lefel gynradd ac uwchradd. Gwyddom mai linell sylfaen yw'r wybodaeth sydd o fewn y cynllun ac rydym yn ymwybodol fod mwy o siaradwyr Cymraeg na'r hyn a amlinellir yn y cynllun, felly byddwn yn mynd ar drywydd hynny. Rydym hefyd yn deall fod rhaglen sabothol Llywodraeth Cymru, sy'n flwyddyn o hyd, wedi bod yn llwyddiannus dros ben ac rydym wedi rhoi'r adborth yma iddynt gan ofyn a oes modd ymestyn y cynllun. Mae'r cynllun wedi galluogi staff, nid yn unig, i gynyddu eu gallu ond i ddychwelyd i'r ysgol gyda syniadau ar sut i wreiddio'r Gymraeg yn yr ysgol. Pe byddai'r cyfleoedd yma ar gael ar lefel uwchradd hefyd, byddai hynny o fudd. O ran y continwmm o addysg gynradd Saesneg i addysg uwchradd Gymraeg, mae rhywfaint o ddiddordeb wedi bod, ond mae cryn dipyn o amser i fynd nes bydd hyn yn digwydd.

Beth yw ein huchelgais ar gyfer addysg uwchradd Gymraeg yn y sir? Ar hyn o bryd rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'n cymydog, Torfaen, ond ai'r uchelgais yw datblygu ein darpariaethau ein hunain ac os felly, beth fyddai hynny'n ei olygu i ni yn ariannol?

Aelod Cabinet: Ar hyn o bryd bydd yr Aelodau'n ymwybodol ein bod yn darparu darpariaeth uwchradd yng Nghasnewydd a Thorfaen. Rydym yn cynnal trafodaethau gydag awdurdodau cyfagos ynghylch cynigion ar gyfer y dyfodol, os bydd nifer yn disgyblion yn cynyddu. Y ffactorau pwysig yw ansawdd y ddarpariaeth a'r pellter sydd angen ei deithio. Er enghraifft, byddai teithio i Gasnewydd neu Torfaen yn siwrne hir i ddisgyblion Trefynwy, y Fenni neu Grughywel, felly rydym yn cynnal trafodaethau gydag awdurdodau cyfagos er mwyn ystyried pa ddarpariaeth y gallai fod ei hangen yn y dyfodol yng ngogledd y sir. Ond, er mwyn egluro pam nad yw hyn yn flaenoriaeth ar hyn o bryd, mae'n werth tynnu sylw at y ffaith, er mwyn i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg fod yn llwyddiannus, byddai angen inni ddarparu'r addysg yn ei gyfanrwydd ac er mwyn i hynny fod yn hyfyw byddai angen y niferoedd priodol o ddisgyblion. Byddai'n ofynnol bod ansawdd y ddarpariaeth o safon uchel ac yn debyg i'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Byddai goblygiadau staffio hefyd, mewn perthynas â gallu staff yn y Gymraeg

a byddai angen ystyried y cludiant o'r cartref i'r ysgol. Ar hyn o bryd rydym yn cael problemau gyda chludiant o'r cartref i'r ysgol gan ein bod yn cael trafferth dod o hyd i ddarparwyr. Rydym felly'n defnyddio'r Uned Cludiant Teithwyr, ond mae hon yn broblem sy'n dod yn fwy fwy i'r amlwg, ac felly mae'n fwy cymhleth wrth ystyried hynny. Byddwn yn adolygu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn fuan, a bydd hyn yn cynnwys ystyried cludiant i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd i sicrhau nad yw'r plant hynny ar eu colled. Felly, cawn weld sut y mae niferoedd y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn tyfu, ond mae ansawdd y ddarpariaeth a'r pellter a deithir yn ddau ffactor pwysig.

Mae darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn hawl sylfaenol ac yn bwysig o ran cryfhau'r iaith, ond gan gydnabod yr heriau yr ydym wedi siarad amdanynt ar lefel uwchradd a'r ffaith ein bod yn sir ar y ffin, os ydym am gynyddu lefel y siaradwyr Cymraeg, sut byddwn yn gwella ansawdd y dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion uwchradd? Os oes llawer o ddisgyblion yn dod i ysgolion Sir Fynwy o dros y ffin, rwy'n pryderu y gallai disgyblion weld dosbarthiadau Cymraeg fel gwastraff amser, felly sut y byddwn yn ceisio annog yr awydd i siarad Cymraeg ymhlith disgyblion ac yna sicrhau nad yw'n darpariaeth yn fratiog?

Rydych yn llygad eich lle. Mae bod yn sir ar y ffin yn cyflwyno heriau, ond rydym yn gwneud llawer o waith o ran hyrwyddo manteision dwyieithrwydd o oed ifanc gan bwysleisio ei bod yn llawer haws dysgu trydedd a phedwaredd iaith os ydych wedi bod yn ddwyieithog yn ifanc. Mae fforwm WESP yn hyrwyddo hyn ac rydym yn gwneud rhywfaint o ffilmio yn un o'n hysgolion. Er mai plant iau fydd yn cael eu ffilmio, y gobaith yw y bydd y ffilm yn helpu disgyblion uwchradd i ddeall y pwysigrwydd. Mae ysgolion yn gweithio gyda ni er mwyn eu cynorthwyo i ddeall y bydd nifer o yrfaoedd yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg, ond rydym hefyd yn edrych ar sut y gellir egluro'r manteision ehangach a'r cyfleoedd sy'n codi wrth siarad Cymraeg os ydynt yn dewis byw yng Nghymru. Teimlwn y bydd y cwricwlwm newydd yn helpu hefyd.

Aelod Cabinet: Mae Sharon wedi cyfeirio at y defnydd o ffilm a'r cyfryngau a bydd yn bwysig dangos ei fod yn rhan o fywyd Sir Fynwy. Yn Ysgol y Brenin Harri 25 mlynedd yn ôl, ni fydded wedi clywed gair o Gymraeg yn cael ei siarad, ond mae'n wahanol iawn nawr a bydd y cwricwlwm newydd yn helpu. Mae'r elfen drawsffiniol yn bwysig oherwydd bydd y cwricwlwm yn wahanol iawn i'r addysg y bydd plant Saesneg yn ei gael, felly bydd yn rhywbeth y bydd angen i rieni ei ystyried - mae'r cwricwlwm newydd yn canolbwyntio ar ystyried pobl ifanc yn 'fwy o feddylwyr a symudwyr' na 'derbynwyr gwybodaeth' yn unig - dyna'r gwahaniaeth. Mae'n gyfnod cyffrous iawn o ran addysg yng Nghymru felly gobeithiwn y bydd rhieni o ochr arall y ffin yn dewis anfon eu plant atom.

O ran argyhoeddi pobl ifanc ynghylch gwerth bod yn ddwyieithog, a ydych chi'n meddwl y gallai'r ffocws ar ragolygon swyddi apelio'n fwy at rieni na phobl ifanc eu hunain? Sut ydych chi'n olrhain barn pobl ifanc ar werth dysgu Cymraeg?

Rwy'n deall eich pwynt ynglŷn â chynnwys disgyblion a gofyn beth yw eu barn ac rydym yn ymgysylltu ag ysgolion ar hyn. Oes, mae angen inni sicrhau eu bod yn deall y gwerth o ran rhagolygon swyddi, ond rydym hefyd am iddynt fwynhau siarad Cymraeg. Nid dim ond pan ddaw addysg i ben y mae gyrfaoedd yn dechrau, mae gennym y 'diwrnod dod â'ch rhieni i'r ysgol' a mentrau eraill lle mae siarad Cymraeg wedi'i wreiddio.

Aelod Cabinet: yn hanesyddol, roedd plant yn cael eu cosbi am siarad Cymraeg yn yr ysgol ac mae Cymru bellach yn ailymddangos a'r iaith yn cael cyfle i flodeuo ar ôl blynyddoedd o ormes.

Rydym wedi sôn am ddisgyblion yn dod o dros y ffin i ysgolion Sir Fynwy ond a oes gennym unrhyw ddata ar y rhai sy'n gwneud y gwrthwyneb?

Mae'n gwestiwn diddorol i sir ar y ffin ac yn aml mae llanw a thrai - plant yn dod i Sir Fynwy a phlant yn gadael - dros amser. Nid wyf yn meddwl fod gan hyn ddim i'w wneud â'r Gymraeg

na'r cwricwlwm, ond maent yn mynd i gyfeiriadau gwahanol iawn yn awr. Mae gennym ffigurau yn ein huned mynediad a allai ddangos hyn ond mae'r rhesymau yn aml yn eang ac amrywiol ac nid ydynt bob amser yn ymwneud â'r Gymraeg.

Mae'r niferoedd yng Nghas-gwent er enghraifft wedi newid llawer, mae llawer mwy o ddisgyblion yn ymuno erbyn hyn, felly mae'r darlun yn un cadarnhaol.

O ran y cydweithio â Thorfaen a Chasnewydd, gyda phob cyngor yn cynyddu ei niferoedd ei hun, a ydym yn adolygu'r sefyllfa'n barhaus?

Ydym, rydym cynnal adolygiad manwl parhaus ac yn ceisio sicrhau bod myfyrwyr cynradd Cymraeg yn gallu symud i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ogystal, hefyd, ag i addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd, rydym yn tybio na fydd unrhyw bwysau cyn 2028. Bydd angen gweld sut mae ysgol Trefynwy yn mynd a bydd angen aros am gyfnod o tua 7 mlynedd i weld y tueddiadau.

O ran y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, yn enwedig seicolegwyr addysg, pa gapasiti sydd o fewn y consortia ar gyfer hyfforddiant arbenigol i gynyddu nifer y seicolegwyr addysg sy'n siarad Cymraeg?

Rydym yn cynnal archwiliad sylfaenol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac rydym yn adolygu ADY yn flynyddol, ond bydd ffocws arbennig ar y Gymraeg. Gellir gwneud hyfforddiant drwy'r awdurdod lleol neu'r consortia addysg ac mae'r holl hyfforddiant yn ddwyieithog ac ar-lein. Ar hyn o bryd, mae angen i ni ddefnyddio rhai cyfieithwyr i gyflawni ein dyletswydd o dan y ddeddf, ond wrth i ni ddatblygu ein capasiti ar lefel uwchradd, rydym hefyd yn cynyddu'r capasiti ar gyfer ADY. Mae'n benbleth i ni, ond rydym bob amser yn chwilio am alluoedd Cymraeg wrth recriwtio.

Roedd gennyf ddiddordeb yn yr adroddiad diweddar a gyhoeddwyd yn genedlaethol a oedd yn cymharu nifer y siaradwyr Cymraeg dros gyfnod o tua 5 mlynedd yn adrodd am ostyngiad yn y niferoedd ac rwy'n bryderus ein bod yn gwthio gormod yn hytrach na thynnu ac annog yr awydd i ddysgu'r iaith.

Rydych chi'n iawn am y dirywiad ac mae eich pwynt yn un diddorol, oherwydd mae'n ymddangos bod y dirywiad o fewn yr oedran iau ac efallai bod darn o waith i Lywodraeth Cymru ei wneud ar hynny. Ni allaf roi ateb penodol, ond rwy'n derbyn eich pwynt ac rwy'n teimlo, wrth i'r iaith gryfhau yn ein sir, fod hynny'n beth cadarnhaol iawn ac mae'n rhaid ein bod yn gwneud rhywbeth yn iawn. Rwy'n cofio agor ein hysgol cyfrwng Cymraeg gyntaf, felly rydym wedi dod yn bell ac yn wahanol i gadarnleoedd Cymru lle gallent fod yn fwy amddiffynnol o ran yr iaith, yma, y teimlad yw ein bod yn gwneud hyn am y rhesymau cywir.

Pa mor hyderus ydym ni fod ffigurau'r cyfrifiad yn gywir, oherwydd roedd y cwestiynau'n syml iawn a gallai ymatebwyr fod yn 3 oed ac hŷn, felly mewn rhai achosion, efallai bod oedolion yn ymateb ar ran plant, felly rwy'n bryderus ynghylch dilysrwydd yr ymatebion i rai o'r cwestiynau.

Rwy'n cytuno â phwyntiau cynharach ynglŷn â gwneud i'r Gymraeg ymddangos yn ystyrllon i bobl ifanc. Rwy'n meddwl efallai y bydd disgyblion o gyrhaeddiad is yn llai argyhoeddedig na'r rhai ar lefel cyrhaeddiad uwch.

O ran sefyllfa Lefel A Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, a oes digon o alw am y cyrsiau? Rwy'n pryderu y gallai mentrau arbed arian arwain at ddileu cyrsiau?

Nid wyf yn ymwybodol o bryderon mawr ynglŷn â'r arolwg, ond nid ydym yn cyfri'r ymatebion i'r cwestiwn "beth mae siarad Cymraeg yn ei olygu i chi?" am y rhesymau a nodwyd gennych. Mae

Canlyniad 5 yn egluro sut y byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu siarad a chlywed yr iaith yn y cyd-destun ehangach.

Mae gennym niferoedd llai ac mae cyrsiau'n cael eu cynnal, ond rydym wedi dysgu llawer am ddysgu o bell yn ystod y pandemig ac efallai, os ydym yn cael problemau, fod angen i ni fod yn fwy creadigol. Mae yna hefyd E-Ysgol sy'n ddefnyddiol iawn, ond i'ch sicrhau, mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ymwybodol ohono ac yn rhywbeth y byddwn yn cynllunio ar ei gyfer, ond rydym yn gobeithio cynyddu'r niferoedd dros amser.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolch i'r swyddogion a'r aelod cabinet am fynychu'r pwyllgor er mwyn ateb eu cwestiynau. Cytunodd y pwyllgor i gynnig yr adroddiad.

4. Cofrestr Risg Strategol

Cafwyd cyflwyniad hyfforddi byr gan Richard Jones a Hannah Carter ar reoli risg ac atebwyd cwestiynau'r aelodau. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau mai rôl y pwyllgor yw bodloni ei hunain o ran y dull gweithredu a fabwysiadwyd a phe byddai'r pwyllgor yn dymuno craffu'n fanwl ar unrhyw risgiau, byddai'r Aelod Cabinet perthnasol yn cael ei wahodd i gyfarfod yn y dyfodol i graffu ar y risg dan sylw.

Her:

*Gan gydnabod fod hwn yn gyfnod eithriadol a bod pob cyngor yn mynd ati i ymdrin â'i gofrestr risg strategol yn yr un modd, gan ailwerthuso'r dewisiadau y maent yn eu gwneud mewn modd beirniadol. Gan edrych ar y 39 risg a nodwyd dros gyfnod o 3 blynedd, ar ôl 3 blynedd o gamau lliniaru, mae 23 yn parhau i fod yn risg uchel. Mae hyn yn rhywbeth sy'n peri pryder mawr i mi, o ystyried bod y mesurau lliniaru eisoes wedi'u cynnwys. Os gwelwch yn dda a gawn ni ymateb gan yr uwch dîm arwain ar hyn. **Cam Gweithredu: Richard Jones a Hazel Ilett.***

Mae eich pwynt am lefelau risg yn un teg. Mae'n bwysig ein bod yn eu hasesu'n gywir ac mae'n bosibl bod rhai o'r ffactorau sy'n ymwneud â'r risg y tu hwnt i'n rheolaeth, sy'n golygu, er ein bod yn rhoi ein mesurau lliniaru ein hunain ar waith, eu bod yn parhau i fod yn risg uchel a'r asesiad cymesur yw efallai na fydd y rhain yn lleihau. Ond mae angen inni ystyried y lefelau risg ac a ydym yn gwneud digon i'w lliniaru os yw lefel y risg yn dal yn uchel. Efallai y bydd rhai o'r mesurau lliniaru yn cymryd amser i'w rhoi ar waith, ac o ganlyniad yn cymryd amser i ostwng lefel y risg.

*Rydym yn edrych ar hyn drwy brism yr Awdurdod Lleol a'r risg, efallai, na fyddwn yn gallu darparu gwasanaethau fel y dymunwn, ond yr hyn nad ydym yn ei gynnwys yw'r risg i ddefnyddwyr gwasanaethau os na allwn ddarparu gwasanaethau i'r safon a ddymunwn ac felly, pa asesiad sydd wedi ei wneud o'r risg i ddefnyddwyr gwasanaeth allweddol a sut y byddai'n effeithio ar eu bywydau? Da o beth fyddai i ni weld y risg o safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth yn hytrach na'r Cyngor yn unig. A fyddech cystal â gofyn am ymateb ynghylch a ddylem wneud mwy i ddeall risg drwy lygaid y defnyddiwr gwasanaeth. **Cam Gweithredu Richard Jones a Hazel Ilett.***

Mae'r gofrestr risg strategol yn ymdrin â rhai o'r effeithiau ar bobl, ond derbynnir eich pwynt ynglŷn â hyn gan mai cofrestr risg cyngor yw hwn. Er enghraifft, ar gyfer risg 11, sef datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd, rydym wedi ceisio dal y risg barhaus i'r gymuned, yn ogystal â'r risg i'n gwasanaethau ein hunain. Er enghraifft, rydym yn gweithio gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent ac mae rhai o'r risgiau'n cael eu rhannu ar draws partneriaid a chymunedau.

Tudalennau 53-54, mae'r adroddiad yn dechrau datgan bod cyllidebau wedi'u lleihau dros nifer o flynyddoedd ac mae'n cyfeirio at gyllidebau nad ydynt yn solfent, a allwch wneud sylwadau ar hynny?

Mae hwn yn gwestiwn eithaf penodol ac yn un a fyddai'n fwy priodol i berchennog y risg. **Cam Gweithredu: Richard Jones a'r uwch swyddog**

Gan gydnabod bod angen i'r perchnogion risg ateb o ran y manylion, mae fy nghwestiwn yn ymwneud â ble mae lefel y risg wedi newid o ganlyniad i fesurau lliniaru, megis risg 4 ar recriwtio, lle ar ôl lliniaru, mae'r risg yn parhau i fod yn 'bosibl'. Mae'r camau gweithredu yn bethau y byddwn wedi gobeithio y byddai'n cael eu cymryd beth bynnag, felly beth yw'r broses o ran y ffordd y caiff y risgiau yma eu hasesu? A yw'r cabinet yn gwneud hyn, a ydych chi'n gwneud hyn? Neu ai cyfrifoldeb deiliad y risg yw hyn?

Mae hyn yn cael ei wneud gan berchennog y risg, gyda chefnogaeth gennym ni er mwyn i ni allu cynnig barn wrthrychol. Mae'r enghraifft yn ymwneud â chwestiwn blaenorol y cadeirydd ynghylch a yw lefelau risg yn newid ar ôl i fesurau lliniaru risg gael eu rhoi yn eu lle, a chan fod rhai risgiau y tu allan i'n rheolaeth, weithiau mae'r risg yn parhau'n uchel er gwaethaf mesurau lliniaru. Felly pan fo lefelau risg yn lleihau, mae hyn fel arfer o ganlyniad i'n mesurau lliniaru ein hunain ac rydym yn gorfod gwneud dyfarniad gwybodus dan arweiniad y rhai sy'n gyfrifol am y risg, gan ystyried adborth gan aelodau etholedig yn ogystal â'r cyhoedd.

Mewn perthynas â risg 2 a'r sefyllfa ariannol bresennol a'r risg y gallai rhai gwasanaethau ddod yn anghynladwy yn ariannol, mae hon yn iaith ddiddorol, o ystyried bod llawer o wasanaethau yn statudol ac nad oes modd cael gwared ohonynt.

Rydym yn ceisio adlewyrchu'r materion sy'n llywio'r risg yn ogystal â'r ffordd yr ydym yn ceisio ymateb iddynt, sut rydym yn cynllunio ac yn rheoli ein cyllideb a sut rydym yn gosod y risg yn unol â hynny, gan nodi'r rhesymau dros y risg. Rydym yn ceisio rhoi'r pennawd mwyaf cywir â phosibl i chi a rhoi mwy o gyd-destun i chi o ran y manylion y tu cefn i'r risg.

Mae gen i ddiddordeb yn y cydadwaith rhwng y 'risg sef y tebygolrwydd y bydd pethau drwg yn digwydd' ac rwy'n meddwl bod y tebygolrwydd y bydd pob un ohonynt yn digwydd yn isel tra bod y tebygolrwydd y bydd un ohonynt yn digwydd yn uchel, felly fy mhryder i yw sut y mae un yn effeithio ar y llall, adnoddau er enghraifft.

Mae'n rhaid i ni nodi beth yw'r risgiau ond hefyd sut y maent yn cysylltu â'i gilydd, er mwyn sicrhau ein bod yn deall sut y maent yn effeithio ar ei gilydd, ond cofrestr risg fyw yw hon, felly mae angen inni feddwl am sut mae rhai o'r risgiau mawr fel y rheini rydych wedi nodi, yn effeithio ar risgiau presennol, gan greu risg newydd o bosibl.

Crynodeb y Cadeirydd:

Er bod llawer o wasanaethau yn statudol, gellir eu lliniaru a'u newid. Ymddengys mai un maes i'w ystyried yn y dyfodol yw adnoddau o'r drafodaeth yr ydym wedi'i chynnal heddiw, felly gallem wahodd y swyddog cyfrifol a'r aelod cabinet, gan fod y risg hon yn effeithio ar y gallu i gyflawni popeth arall.

Gan gydnabod bod y ddogfen yn ddogfen fyw, mae'r pwyllgor yn dymuno dod â hyn yn ôl ymhén 3 mis, er mwyn caniatáu amser i'r swyddog gweithredol weithio drwy'r camau lliniaru. Os oes gan Aelodau risgiau penodol yr hoffent graffu arnynt, a fydddech cystal â thynnu sylw at y rhain fel y gallwn wahodd y deiliaid portffolio perthnasol. Cytunodd y pwyllgor i gynnig yr adroddiad.

5. Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg a'r Rhestr Weithredu

Tynnodd y Cynghorydd Pavia sylw at y ffaith y gallai fod perygl i'r pwyllgor gamu i dir craffu ac awgrymodd fod angen i'r pwyllgor lunio ei flaengynllun gwaith ei hun gan fod ganddynt hawl i wneud hyn.

Cytunodd y Cadeirydd mai pwrpas y pwyllgor yw ychwanegu gwerth i sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwell gwasanaethau i bobl a chynorthwyo'r cabinet i wneud hynny. Awgrymodd efallai y byddai'r pwyllgor yn dymuno trafod y gofrestr risg strategol yn rheolaidd, yn hytrach nag unwaith y flwyddyn a chanolbwyntio ar safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth.

Byddai cyfarfod arbennig yn cael ei gynnal ar 25ain o Ionawr 2023 i graffu ar gynigion o ran y gyllideb.

6. Cynllun Gwaith y Cabinet a'r Cyngor

Nodwyd y blaengynllun gwaith. Atgoffodd y cadeirydd y pwyllgor ei bod yn bwysig cadw llygad barcud ar Flaen Waith y Cabinet a'r Cyngor, yn enwedig yng ngoleuni'r adroddiad risg strategol sydd wedi dod i law heddiw.

Eglurwyd mai'r pwyllgor hwn yn unig sy'n gyfrifol am graffu ar risg, yn hytrach na'r pwyllgorau craffu eraill.

7. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd cofnodion 21 Tachwedd 2022 a'u llofnodwyd fel cofnod cywir.

8. Cyfarfod Nesaf: Cyfarfod Arbennig - 17 Ionawr 2023